



Ein cyf/Our ref : RE/280/20

Dawn Bowlen AS
Cadeirydd, y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd

11 Awst 2020

Annwyl Dawn,

Diolch ichi am eich llythyr yn ceisio barn Llywodraeth Cymru ar amrywiaeth o faterion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor, gan gynnwys effeithiau COVID-19, diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol, diwygio etholiadol y Senedd a newidiadau i ffiniau a'r dull deddfwriaethol.

Effeithiau COVID-19

Rydym yn falch fod y Senedd wedi gallu addasu, yn dilyn cyngor iechyd y cyhoedd, i sicrhau bod ein deddfwrfa yn parhau i weithredu er gwaetha'r amgylchiadau na welwyd mo'u tebyg o'r blaen yn sgil y pandemig. Er nad mater i Lywodraeth Cymru yw hwn, byddem yn fodlon ymchwilio ymhellach, i'r graddau sy'n briodol, i ddarganfod a ellid defnyddio'r hyblygrwydd a gynigiwyd gan y mesurau dros dro yn ystod y pandemig yn fwy parhaol i alluogi Aelodau i reoli eu baich gwaith a'u cyfrifoldebau eraill yn fwy effeithiol.

Mae'r her a wynebwyd yn sgil y pandemig wedi bod yn enfawr - nid yn unig i'r Senedd a Llywodraeth Cymru, ond hefyd i fusnesau, gwasanaethau cyhoeddus ac unigolion ledled Cymru a thu hwnt.

Nid yw maint presennol Llywodraeth Cymru wedi amharu ar ein gallu i ymateb i'r pandemig. O ystyried natur eang a thrawsbynciol yr ymateb, mae'r Prif Weinidog, yn naturiol, wedi cymryd yr awenau, gyda chymorth gan Weinidogion eraill Cymru gyda meysydd penodol o'n hymateb.

Heb newid dros dro i arferion gwaith y Senedd – er enghraifft gostyngiad yn nifer y cyfarfodydd Pwyllgor a llai o Aelodau yn y Cyfarfod Llawn – gallai'r effaith ar allu'r Senedd i ymgymryd â gwaith craffu fod wedi bod yn waeth pe na bai Aelodau ar gael oherwydd eu bod yn gwarchod eu hunain neu'n hunanynysu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu cronfa i gefnogi ymgeiswyr anabl i sefyll mewn etholiad. Er bod yr ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar amserlen y gwaith hwn, rydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i ymgynghori ar y trefniadau ar gyfer y gronfa a'i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gweithrediad yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod y dull yn cynnig yr ystod ehangaf bosibl o gefnogaeth.

Er bod yr ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi achosi peth oedi yn yr amserlenni, mae swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod y ddeddfwriaeth angenrheidiol i eithrio anabledd a chostau yn ymwneud â chyfieithu yn eu lle ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021. Y bwriad yw y bydd y ddeddfwriaeth yn ei lle cyn diwedd y flwyddyn galendr er mwyn rhoi digon o rybudd am y newidiadau hyn i ymgeiswyr a'r gymuned etholiadol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gefnogi cychwyn adran 106 o'r Ddeddf Cydraddoldeb ac rydym yn aros am ymateb.

Diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r rheoliadau sy'n nodi'r model o'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy i'w ddefnyddio mewn etholiadau llywodraeth leol yn y Rheolau Etholiadau Llywodraeth Leol. Bydd y rhain yn cael eu llunio cyn etholiadau llywodraeth leol 2022. Bydd y rheoliadau hyn yn nodi sut y dylai'r system weithio yn ymarferol ac yn rhoi digon o amser i awdurdodau lleol ystyried y system yn fanwl cyn gweithredu unrhyw newidiadau yr hoffai'r awdurdod eu gwneud. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i wahanol fodolau o'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy a bydd yn ymgynghori ar opsiynau posibl cyn rhoi'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ar waith yn 2021. Bydd yr ymchwil hon ac adborth gan ymgynghoreion yn llywio'r model a fabwysiedir gan Lywodraeth Cymru.

Diwygio'r system etholiadol a ffiniau

Rydym yn rhagweld y byddai'r Llywodraeth Cymru bresennol yn ei hystyried ei hun yn gyfrifol am ddatblygu a lledaenu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diwygio etholiadol y Senedd a gweithredu'r ddeddfwriaeth honno. Byddai hefyd yn arwain ar ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd a chodi eu hymwybyddiaeth, gan weithio gyda rhanddeiliaid.

Byddai angen ystyried goblygiadau ariannol unrhyw ddiwygio fel rhan o ddeddfwriaeth i sicrhau newidiadau i'r trefniadau presennol. Byddai unrhyw oblygiadau ariannol i awdurdodau lleol neu gyrrff a noddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried drwy'r prosesau cyllid arferol.

Caiff adnoddau Llywodraeth Cymru eu hailddosbarthu yn unol â blaenoriaethau'r Gweinidogion. COVID-19 yw'r flaenoriaeth bwysicaf ar hyn o bryd. Mae capasiti hefyd, er yn gyfyngedig, i ddilyn y camau angenrheidiol i sicrhau y gall etholiad y Senedd yn 2021 fynd yn ei flaen (mae llawer, wrth gwrs, bellach yn rhan o'r ymateb i'r pandemig ei hun). Pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn blaenoriaethu diwygio etholiadol y Senedd, yna byddai adnoddau'n cael eu dyrannu yn unol â hynny.

Mae gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru wedi dangos ar sawl achlysur eu bod yn gallu addasu i newidiadau sylweddol o fewn y system etholiadol ddatganoledig ac yn gallu gweithredu'r newidiadau hynny. Er bod Llywodraeth Cymru yn credu y gallai gweinyddwyr weithredu unrhyw newidiadau i system etholiadol y Senedd yn llwyddiannus, byddai'n rhaid cynnal ymgynghoriad hir a sylweddol gyda thimau etholiadol drwy gydol y broses ddiwygio. Byddai angen ystyried cymorth dwy ymgysylltu, hyfforddi a mabwysiadu amserlenni priodol ar gyfer cyflwyno diwygiadau. Ar ben hynny, byddai angen ystyried y newidiadau angenrheidiol i systemau meddalwedd rheoli etholiadol. Byddai angen ariannu a rheoli'r newidiadau hyn yn ganolog, gan ymgysylltu'n sylweddol ac yn gyson gyda gweinyddwyr. Byddai gofyn i swyddogion feddu ar gymhwysedd digidol sylweddol a'r gallu i weithio gyda

chyflenwyr masnachol allanol. O ystyried ehangder posibl y diwygiadau, mae'n debygol y byddai hwn yn brosiect hir a byddai gofyn i Lywodraeth Cymru a thimau rheoli etholiadol fuddsoddi llawer er mwyn sicrhau bod y cynhyrchion yn cael eu cyflawni ar amser ac i fanyleb.

Mae canllawiau'r Comisiwn Etholiadol yn awgrymu y dylai pob diwygiad fod ar waith o leiaf 6 mis cyn etholiad, er mwyn caniatáu i weinyddwyr eu gweithredu'n llwyddiannus. Fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd unrhyw ddiwygiadau o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn credu y byddai angen iddynt fod ar waith o leiaf blwyddyn cyn etholiad y Senedd, er mwyn rhoi digon o amser i weinyddwyr baratoi'n llawn ar gyfer cyflawni'r etholiad yn llwyddiannus.

Dull deddfwriaethol

Er eglurder, gwnaeth swyddogion Llywodraeth Cymru waith ar y Bil Senedd ac Etholiadau ar gyfer y Llywydd, i ymestyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 a 17 oed o dan delerau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Fodd bynnag, er bod hyn yn ymarferol ar gyfer maes polisi neilltuol lle'r oedd cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Llywydd ar y polisi, ym marn Llywodraeth Cymru, byddai'n anymarferol ac yn anghynladwy ar gyfer meysydd polisi ehangach a/neu gyfnodau amser hirach, gan y byddai o bosibl yn rhoi swyddogion a Gweinidogion mewn sefyllfaoedd sy'n gwrthdaro â'i gilydd. Ar wahân i hynny, cyfarfu swyddogion eraill Llywodraeth Cymru yn rheolaidd â swyddogion Comisiwn y Senedd (gan gefnogi cyfarfodydd llai aml rhwng y Gweinidogion a'r Llywydd) i drafod safbwyntiau polisi, a chynnig sylwadau ar ddrafftiau, ar gyfer rhannau eraill o'r Bil. Lle nad oedd safbwyntiau polisi a sylwadau drafftio yn cael eu hadlewyrchu yn y Bil, cynigiodd Llywodraeth Cymru ddiwygiadau wedi iddo gael ei gyflwyno.

Rydym yn credu'n glir y dylai'r Llywodraeth Cymru bresennol arwain unrhyw waith diwygio yn y dyfodol. Mae gan y Gwasanaeth Sifil gyfoeth o brofiad wrth ddatblygu polisi a drafftio deddfwriaeth sy'n addas iawn ar gyfer mynd i'r afael â'r pwnc cymhleth hwn. Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru grŵp sefydledig o randdeiliaid sydd wedi arfer cael eu cynnwys mewn trafodaethau polisi gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, gyda systemau statudol a rhynglywodraethol a pherthnasoedd cadarn yn sail iddynt. Byddai hefyd yn darparu dealltwriaeth glir ynghylch atebolrwydd am y polisi yn y Bil.

Fodd bynnag, o ystyried y byddai angen mwyafrif o ddwy ran o dair i wneud newidiadau i drefniadau'r Senedd, byddai ymgysylltu ac ymgynghori'n briodol â'r gwrthbleidiau yn bwysig o'r camau cynnar.

Yn olaf, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae diwygio etholiadol yn bwysig iawn er mwyn sicrhau mynediad at y system ddemocrataidd a sicrhau hyder yn y system honno. Rydym yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig, a hefyd gyda rhanddeiliaid, i ddatblygu a gweithredu cynigion ar gyfer diwygio etholiadol, ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill.

Yn gywir,



Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd